



Hunan Wasanaeth Aelodau - Sut i gofrestru?

Mae cofrestru i Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA) yn broses 3 cam syml:

Cam 1

I ddechrau eich cofrestriad ewch i'r wefan ganlynol:

<https://aelodau.cronfabensiwnwynedd.cymru>

Dylech glicio ar 'Ymuno' ar y brif dudalen a chwblhau'r ffurflen syml gyda'ch manylion.



Cam 2

Bydd 'Allwedd Actifadu' yn cael ei anfon i chi yn **y post o fewn 10 diwrnod gweithio**. Ar ôl derbyn yr allwedd dychwelwch i'r safle we uchod a cliciwch 'Actifadu' a chwblhau'r ffurflen syml gyda'ch manylion.

Os yw eich cyfeiriad e-bost ar ein system yna byddwch yn derbyn e-bost (fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith) i'ch galluogi i gwblhau eich cofrestriad yn hytrach nag derbyn allwedd actifadu yn y post. Mae'r ddolen yn yr e-bost yn ddilys am **24 awr** yn unig ac mae'n mynd a chi'n syth i **Gam 3**.



Cam 3

Byddwch yna angen creu enw defnyddiwr, cyfrinair a dau ymateb diogelwch.

Unwaith rydych wedi cwblhau'r 3 cam byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch record o'r brif dudalen.

Eich Enw Defnyddiwr ...

Mae'n rhaid i'r enw defnyddiwr fod rhwng 6-30 nodau o hyd.

NI ddylid cynnwys unrhyw nodau arbennig (er enghraifft symbolau % neu £).

Eich Cyfrinair ...

Mae'n rhaid iddo fod rhwng 8-12 nodau o hyd.

Mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf un rhif ac un nodyn priflythyren.

NI ddylid cynnwys unrhyw nodau arbennig (er enghraifft symbolau % neu £).

Nodwch **fod** llythrennau mawr/bach o bwys ar gyfer y cyfrinair.

Eich Ymatebion Diogelwch ...

NI ddylid cynnwys unrhyw nodau arbennig (er enghraifft symbolau % neu £).

NI ddylid fod fwy na 30 nodau o hyd.

Nodwch am resymau diogelwch nid yw Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dal cofnod o'r cyfrinair a ddewiswyd gennych. Os byddwch yn anghofio eich cyfrinair, bydd angen i chi ei ail-osod ar y dudalen logio i mewn.

Beth os nad oes gennyf fynediad i'r Rhyngwrwyd?

Os nad ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth electronig, yna cadarnhewch yn ysgrifenedig i:

Cronfa Bensiwn Gwynedd,
Swyddfa'r Cyngor,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

NODWCH....

Bydd yr allwedd actifadu dim ond yn gweithio am **30 diwrnod** ar ôl iddo gael ei gynhyrchu, felly mae'n bwysig i chi gwblhau eich cofrestriad cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich allwedd actifadu.